

DOLEN

YSGOL
BRO
TEIFI

Rhifyn 20 - 7fed o Fedi 2026

Croeso i Flwyddyn Academaidd Newydd!

Annwyl Rieni, Gofalwyr a Chyfeillion,

Croeso i ddechrau blwyddyn academaidd newydd yma yn Ysgol Bro Teifi. Croeso arbennig i'r rhai ohonoch sy'n ymuno â'r ysgol am y tro cyntaf a gobeithio fydd y wybodaeth o fewn ein cylchlythyr yn ddefnyddiol i chi. Os hoffech wybodaeth pellach am unrhyw agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol, cofiwch edrych ar ein gwefan gynhwysfawr. Yn y rhifyn hwn cewch wybod ychydig mwy am ein blaenoriaethau ar gyfer eleni, cael cyfle i ddod i adnabod rhai o'r aelodau staff newydd sy'n ein plith a derbyn gwybodaeth bwysig ynghylch dyddiadau'r flwyddyn sydd i ddod.

Nodwedd bwysig o'n hysgol yw ein gwerthoedd craidd, a'r gwerthoedd hynny sy'n arwain gwaith cymuned ein hysgol ym mhopeth y gwnawn. Edrychwn ymlaen i fagu'r un gwerthoedd ymysg ein disgyblion eto eleni - **PARCH, CYMREICTOD, GWYDNWCH, UCHELGAIS, CAREDIGRWYDD a THEGWCH.**

Eleni, rydym yn croesawu bron 830 o ddisgyblion i'r ysgol, o'r Meithrin yr holl ffordd i fyny i Flwyddyn 13. Edrychaf ymlaen yn fawr iawn i'w gweld yn datblygu ac yn gwneud cynnydd eleni.

Mae llwyddiant pob ysgol yn ddibynnol ar y cyd-berthynas bwysig honno rhwng y disgybl, y rhieni a'r ysgol a gyda hynny mewn golwg, edrychaf ymlaen at gydweithio gyda chi a'ch plant yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Cofiwch, os oes gennych unrhyw bryder neu angen cyngor neu wybodaeth pellach, cysylltwch gyda'r ysgol i drefnu sgwrs neu, os oes well gennych, edrychwch ar dudalen ola'r rhifyn hwn i weld sut i archebu apwyntiad i gwrdd gyda mi. Pob dymuniad da ar gyfer y tymor ac am y flwyddyn sydd i ddod,

Mr Gareth Evans

Pennaeth



EIN TÎM ARWAIN 3-19

Gweler isod ein Tim Arwain 3-19 o fewn Ysgol Bro Teifi. Mae'r tîm hwn yn barod i gefnogi eich disgyblion o fewn yr ysgol a sicrhau eu cynnydd a'u hapusrwydd. Os hoffech drafod unrhyw fater gyda'r person perthnasol gallwch gysylltu gyda nhw drwy gyfeiriad e-bost y swyddfa.



Pennaeth : Mr Gareth Evans

ARWEINYDDIAETH STRATEGOL A SAFONAU

- Arweinyddiaeth Strategol
- Gweledigaeth
- Cyllid a Staffio
- Llywodraethiant
- Safonau
- Data
- Cynllunio Gwelliant
- Asesu ac Adborth

Dirprwy Bennaeth : Mrs Eirlys Thomas

CYNNYDD, CWRICWLWM A DATBLYGIAD PROFFESIYNOL PARHAUS

- Cwricwlwm 3-19
- Medrau 3-14
- Cynnydd 11-19
- Amserlen 11-19
- Dysgu Proffesiynol Parhaus
- Dewisiadau ôl-14 ac ôl-16
- Nosweithiau Rhieni 11-19
- Adroddiadau



Pennaeth Cynorthwyol - Mrs Carys Llywelyn

CYNNYDD, PRESENODLEB A LLES DYSGWYR 3-11

- Presenoldeb 3-11
- Amserlen 3-11
- Cynnydd 3-11
- Lles Disgyblion 3-11
- Cyfrifoldeb Dydd i Ddydd - Oed Cynradd
- Nosweithiau Rhieni 3-11

EIN TÎM ARWAIN 3-19



Pennaeth Cynorthwyol: **Mrs Heledd Thomas** DIOGELU A LLES

- Lles Disgyblion 11-19
- Diogelu ac Amddiffyn Plant 3-19
- Presenoldeb 11-19
- Cymreictod a Siarter Iaith
- Pontio
- Gwrth Fwlio
- Plant mewn Gofal

Pennaeth Cynhwysiant : **Mrs Cei Pryderi** ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIANT

- Cydlynnydd ADY (CADY)
- Cynhwysiant
- Cwricwlwm Amgen
- Trefniadau Mynediad Arholiadau Allanol



Uwch Athro - **Mrs Alwen Thomas** DYSGU AC ADDYSGU A LLAIS DYSGWYR

- Dysgu ac Addysgu ac Addysgeg
- Gyrfaoedd a Byd Gwaith
- Llais y Disgybl
- Marchnata a Hyrwyddo
- Pwyllgor Lles Staff

Rheolwr Busnes- **Mrs Angharad Morgan-Jones** CYLLID, ADNODDAU DYNOL AC ADEILADAU

- Monitro'r Gyllideb
- Adnoddau Dynol
- Cydlynnydd Ymweliadau Addysgol
- Adeiladau
- Iechyd a Diogelwch



DEWCH I GWRDD A'R PENAEITHIAID BLWYDDYN

7

Blwyddyn 7 : Miss Awen Davies



Blwyddyn 8 : Mr Dion Phillips

8

9

Blwyddyn 9 : Mr Michael Davies



Blwyddyn 10 : Miss Carys Williams

10

11

Blwyddyn 11 : Miss Sioned Jones
Is-Bennaeth : Mrs Ffion Richards



Blwyddyn 12

Mrs Elinor Morgan

Blwyddyn 13

12

13

Os hoffech gysylltu gyda phennaeth blwyddyn eich plentyn, cysylltwch gyda
swyddfa@broteifi.ceredigion.sch.uk gan nodi enw'r pennaeth blwyddyn
perthnasol.

EIN ARWEINWYR

Arweinydd Adran Meithrin-Derbyn

Mrs Alisa Lloyd-Jordan



Arweinydd Adran Blwyddyn 1 a 2

Mrs Lauren Jones (Cyfnod Mamolaeth)



Arweinydd Adran Blwyddyn 3 a 4

Mrs Eleri Thornton



Arweinydd Adran Blwyddyn 5 a 6

Mrs Ffion Harries



Cydlynnydd
Llythrennedd

3-14

Mrs Catrin Ifan



Cydlynnydd
Rhifedd

3-14

Miss Meirian Morgan



Cydlynnydd
Cymhwysedd

Ddigidol

3-14

Miss Leah Slaymaker



EIN ARWEINWYR

Pennaeth Cyfadran y Gymraeg 11-19

Mrs Alwen Thomas (Cyfnod Mamolaeth)



Pennaeth y Gyfadran Saesneg

Mrs Megan Davies



Pennaeth y Gyfadran Fathemateg

Dr Eilir Pryse



Pennaeth y Gyfadran Wyddoniaeth

Mrs Gemma Potter



Pennaeth y Gyfadran Ddyniaethau

Mrs Manon Lewis



Pennaethiaid y Gyfadran Technoleg a TG

Mrs Katie-Ann Briddon Jones a Miss Leah Slaymaker



Pennaeth y Gyfadran Celfyddydau Mynegiannol

Mrs Heiddwen Tomos



Arweinydd Iechyd a Lles 11-19

Miss Carys Williams



Arweinydd Galwedigaethol 14-19

Mrs Lisa Donne



Cydlynnydd Bagloriaeth Cymru

Mrs Elinor Morgan



MAE DIOGELU YN FUSNES I BAWB! SAFEGUARDING IS EVERYONE'S BUSINESS!

Os oes gennych chi bryderon am ddiogelwch neu les disgybl, mae'n rhaidd dweud wrth rhywun

If you are worried about the safety or wellbeing of a pupil, you must tell someone

PWY?

WHO?



MRS HELEDD THOMAS
SWYDDOG DIOGELU DYNODEDIG
DESIGNATED SAFEGUARDING
OFFICER



MRS EIRLYS THOMAS
DIRPRWY SWYDDOG DIOGELU
DEPUTY SAFEGUARDING
OFFICER



MRS CEI PRYDERI
DIRPRWY SWYDDOG DIOGELU
DEPUTY SAFEGUARDING
OFFICER



MRS CARYS LLYWELYN
DIRPRWY SWYDDOG DIOGELU
DEPUTY SAFEGUARDING
OFFICER



MRS FFION LLOYD
LLYWODRAETHWR CYSWLLT - DIOGELU
LINK GOVERNOR - SAFEGUARDING



RHIFAU FFON DEFNYDDIOL / USEFUL PHONE NUMBERS



NSPCC	0808 800 5000	NSPCC
Childline	0800 1111	Childline
Llinell Gymorth Camdriniaeth yn y Cartref	0808 2000 247	Domestic Abuse Helpline
Heddlu	101 / 999	Police
Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion	01545 574000	Ceredigion Social Services
Tim Dyletswydd Allan Oriau Swyddfa Ceredigion	0845 6015392	Ceredigion Out of Office Hours Duty Team
Gwasanaethau Gyhoeddus Sir Gaerfyrddin	01554 742322	Cardiganshire Social Services
Tim Dyletswydd Allan Oriau Swyddfa Sir Gaerfyrddin	01558 824283	Cardiganshire Out of Office Hours Duty Team
Nicola Willis	01970 633668	Nicola Willis
(Swyddog Amddiffyn Plant Arweiniol Ceredigion)	07815 993638	(Ceredigion Child Protection Lead Officer)

MAE EIN HYSYGOL WEDI YMRWYMO I DDIOGELU AC I HYRWYDDO LLESIANT EIN DISGYBLION. DISGWYLIWN I HOLL STAFF, DISGYBLION AC YMWELWYR I RANNU'R YMRWYMIAD HWN

OUR SCHOOL IS COMMITTED TO SAFEGUARDING AND PROMOTING THE WELFARE OF OUR LEARNERS. WE EXPECT ALL STAFF, PUPILS AND VISITORS TO SHARE THIS COMMITMENT.

EIN BLAENORIAETHAU

2026 -2027

Parhau i ddatblygu addysgu ac asesu o ansawdd uchel a chyson er mwyn sicrhau cynnydd a safonau uchel i bob dysgwr



Parhau i ddatblygu cwricwlwm cynhwysol a chydlynol sy'n cefnogi datblygiad a dilyniant mewn medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd ddigidol ein dysgwyr.

Cryfhau lefelau presenoldeb disgyblion drwy barhau i ymgysylltu â dysgwyr, rhieni a gofalwyr.



Meithrin diwylliant o berthnasoedd cryf, ymddygiad cadarnhaol ac ymdeimlad o berthyn sy'n hyrwyddo lles a chymhelliant ein holl ddisgyblion.

Cryfhau ymhellach ein gweithdrefnau hunanwerthuso er mwyn gwerthuso effaith y ddarpariaeth ar safonau a chynnydd.



Sut y gallwch gefnogi'r ysgol i gwrdd a'i blaenoriaethau?



- Annog eich plant i gymryd rhan weithredol yng nghwricwlwm yr ysgol
- Gwneud yn siŵr fod eich plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn barod i ddysgu (gwisg gywir, offer cywir a.y.b.).
- Cysylltu gyda'r ysgol yn syth os nad yw eich plentyn yn gallu mynychu.
- Osgoi tynnu plant allan o'r ysgol e.e. ar wyliau adeg tymor.
- Ceisiwch drefnu apwyntiadau meddygol tu allan i oriau ysgol.
- Cefnogi eich plant i baratoi ar gyfer asesiadau, profion ac arholiadau allanol drwy sicrhau amser priodol ar gyfer paratoi a gofod tawel i ddysgu adref.
- Annog eich plant i ddarllen adref ac, i rieni plant iau, darllen gyda nhw adref yn ddyddiol.
- Ymarfer tablau a sillafu yn aml adref er mwyn atgyfnerthu sgiliau sylfaenol.
- Mynychu pob noson rieni er mwyn deall yn well sut gallwch gefnogi eich plentyn i lwyddo.
- Monitro gwaith cartref eich plentyn a sicrhau eu bod yn cwblhau'r gwaith ar amser ac i safon dda.
- Cyfathrebu gyda arweinwyr yr ysgol drwy e-bost neu ffon os oes rhywbeth yn eich poeni.
- Annog eich plentyn i siarad gyda chi yn agored adref os oes rhywbeth yn eu poeni.
- Cefnogi eich plentyn i ddeall sut i fod yn ddiogel ar-lein a sut i ddefnyddio technoleg yn ddiogel ac mewn modd iachus.
- Cefnogi polisiau'r ysgol yn ymwneud ag ymddygiad.
- Cyfrannu at weithgareddau llais rhieni/gofalwyr (e.e. holiaduron barn).
- Annog eich plentyn i ddatblygu agwedd bositif at yr ysgol ac at addysg yn gyffredinol.
- Gwneud yn siŵr fod gan eich plentyn lyfr darllen gydan nhw yn eu bag bob dydd.

CALENDR 2026-27

Dyddiad / Date	Digwyddiad	Event
09-11/09/2026	Taith Breswyl Blwyddyn 7 i Langrannog	Year 7 Residential Trip to Llangrannog
14/09/2026	Colorfoto yn yr ysgol i dynnu lluniau disgyblion Bl 7-10	Colorfoto in school to take pictures of Year 7-10 pupils
21/09/2026	Noson Rieni a Gofalwyr Blwyddyn 11	Year 11 Parents and Carers Evening
25/09/2026	Twrnaint Rygbi Ceredigion Bl 9 ac 11	Ceredigion Rugby tournament Yr 9+ 11
01/10/2026	Twrnaint Pêl Rwyd Cymysg Bl 5 a 6	Year 5 and 6 Mixed Netball Tournament
05/10/2026	Noson Agored i Ddarpar Ddisgyblion Oed Uwchradd	Open Evening for Prospective Secondary Age Pupils
WC 05/10/2026	Asesiadau Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol Blwyddyn 7 (Gwaelodlin)	National Literacy and Numeracy Assessments for Year 7 (Baseline)
09/10/2026	Gwyl Rygbi Ceredigion i Flwyddyn 7	Year 7 Ceredigion Rugby Festival
13/10/2026	Twrnaint Pêl Droed Cymysg Bl 3 a 4	Year 3 and 4 Mixed Football Tournament
15/10/2026	Diwrnod Blasu i Flwyddyn 6	Year 6 Taster Day

CALENDR 2026-27

Dyddiad / Date	Digwyddiad	Event
20/10/2026	Taith Astudiaethau Crefyddol Blwyddyn 11	Year 11 Religious Studies Visit
26-30/10/2026	Gwyliau Hanner Tymor Hydref	Autumn Half Term Holiday
02/11/2026	Ffenest Arholiadau TGAU Tachwedd yn agor	November GCSE Examination Window Opens
02/11/2026	Noson Rieni a Gofalwyr Blynyddoedd 12 a 13	Years 12 and 13 Parents and Carers Evening
09/11/2026	Galwadau Ffôn Adref Oed Cynradd (1)	Primary Age Phone Calls Home (1)
11/11/2026	Ffenest Arholiadau TGAU Tachwedd yn cau	November GCSE Examination Window closes
16/11/2026	Galwadau Ffôn Adref Oed Cynradd (2)	Primary Age Phone Calls Home (2)
16/11/2026	Noson Rieni a Gofalwyr Blwyddyn 10	Year 10 Parents and Carers Evening
17/11/2026	Twrnaint Pêl Rwyd Merched Bl 5 a 6	Year 5 and 6 Girls Netball Tournament
23/11/2026	Diwnrod HMS - Dim ysgol i ddisgyblion	INSET Day - No school for pupils

CALENDR 2026-27

Dyddiad / Date	Digwyddiad	Event
25+26/11/2026	Rownd Cyn-Derfynol Cogurdd Cynradd	Primary Cogurdd Semi-Finals
26/11/2026	Ffair Nadolig Ysgol Bro Teifi	Ysgol Bro Teifi Christmas Fair
30/11/2026	Noson Rieni a Gofalwyr Blwyddyn 7	Year 7 Parents and Carers Evening
30/11/2026	Wythnos Ffug Arholiadau Blwyddyn 11	Year 11 Mock Examination Week
01/12/2026	Taith Tractorau Cylch Meithrin	Cylch Meithrin Tractor Run
02/12/2026	Sioe Nadolig Cyfnod Sylfaen	Foundation Phase Christmas Show
04/12/2026	Rownd Derfynol Cogurdd a Phoburdd Ceredigion	Final Round Cogurdd and Poburdd Ceredigion
07/12/2026	Noson Agored - Darpar 6ed Dosbarth	Prospective 6 th Form Open Evening
17/12/2026	Noson Wobrwy Oed Uwchradd	Secondary Age Prize Giving Evening
18/12/2026	DIWEDD TYMOR YR HYDREF	END OF AUTUMN TERM

CALENDR 2026-27

Dyddiad / Date	Digwyddiad	Event
02-09/01/2027	Cwrs Sgio - Les Menuires	Skiing Course - Les Menuires
11-13/01/2027	Arholiadau Ymarerol Gwyddoniaeth BL 11	Year 11 Practical Science Examinations
12/01/2027	Dy Ddewis, Dy Ddyfodol - BL 9	Year 9 - Your Choice, Your Future
14/01/2027	Twrnaint Pêl Rwyd Merched Blwyddyn 5 a 6	Year 5 and 6 Netball Tournament
18/01/2027	Noson Rieni a Gofalwyr Blwyddyn 9	Year 9 Parents and Carers Evening
01/02/2027	Wythnos Ffug Arholiadau BL 12 a 13	Year 12 and 13 Mock Examination Week
01/02/2027	Noson Rieni a Gofalwyr Blwyddyn 8	Year 8 Parents and Carers Evening
02/02/2027	Twrnmain Rygbi Tag Merched BL 5 a 6 a Cymysg BL 3 a 4	Year 5 and 6 Girls and Year 3 a 4 Mixed Tag Rugby Tournament
03/02/2027	Ffug Gyfweiliadau Blwyddyn 11	Year 11 Mock Interviews
08-12/02/2027	Gwyliau Hanner Tymor y Gwanwyn	Spring Half Term Holiday

CALENDR 2026-27

Dyddiad / Date	Digwyddiad	Event
18/02/2027	Eisteddfod Offerynnol Rhanbarthol yr Urdd	Regional Instrumental Urdd Eisteddfod
18/02/2027	Taith Blood Brothers yr Adran Saesneg	English Department Blood Brothers Trip
22/02/2027	Noson Rieni a Gofalwyr Oed Cynradd (1)	Primary Age Parents and Carers Evening (1)
22/02/2027	Noson Ddewisiadau Blwyddyn 9	Year 9 Options Evening
23/02/2027	Diwrnod Gyrfaedd Bl 7 ac 8	Year 7 and 8 Careers Day
01/03/2027	Noson Rieni a Gofalwyr Oed Cynradd (2)	Primary Age Parents and Carers Evening (2)
02/03/2027	Eisteddfod Cylch Teifi yr Urdd	Teifi Area Urdd Eisteddfod
04/03/2027	Eisteddfod Rhanbarth Dawns a Theatr yr Urdd	Regional Urdd Dance and Theatre Eisteddfod
09/03/2027	Twrnamaint Rygbi Agored Bl 5 a 6	Year 5 and 6 Open Rugby Tournament
12/03/2027	Eisteddfod Rhanbarth Uwchradd	Secondary Regional Eisteddfod
13/03/2027	Eisteddfod Rhanbarth Cynradd	Primary Regional Eisteddfod

CALENDR 2026-27

Dyddiad / Date	Digwyddiad	Event
19/03/2027	DIWEDD TYMOR Y GWANWYN	END OF SPRING TERM
05/04/2027	Diwnrod HMS - Dim ysgol i ddisgyblion	INSET Day - No school for pupils
08/04/2027	Twrn maint Pêl Droed Merched ac Agored Bl 5 a 6	Year 5 and 6 Open and Girls Football Tournament
03/05/2027	Gwyl y Banc Cynnar Mis Mai	Early May Bank Holiday
04/05/2027	Wythnos Arholiadau ac Asesiadau Cenedlaethol Bl 9	Year 9 Examination and National Assessments Week
07/05/2027	Diwrnod Dysgu Ar-Lein - Etholiadau Lleol (disgyblion adref)	On-Line Learning Day - Local Elections (pupils at home)
10/05/2027	Ffenest Cyfres Arholiadau Haf 2027 yn agor	Summer 2027 Examination Series Window Opens
25/05/2027	Twrn maint Criced Cymysg Bl 3 a 4	Year 3 and 4 Mixed Cricket Tournament
31/05-04/06/2027	Gwyliau Hanner Tymor yr Haf	Summer Half Term Holiday
14/06/2027	Wythnos Profion Dosbarth Bl 7 ac 8	Year 7 and 8 Classroom Tests

CALENDR 2026-27

Dyddiad / Date	Digwyddiad	Event
18/06/2027	Ffenest Arholiadau Haf yn cau	Summer Examination Window Closes
22/06/2027	Mabolgampau Oed Cynradd	Primary Sports Day
22/06/2027	Taith Dyniaethau Bl 8	Year 8 Humanities Trip
23+24/06/2027	Diwrnodau Pontio Blwyddyn 6	Year 6 Transition Days
28/06/2027	Mabolgampau Oed Uwchradd	Secondary Sports Day
01/07/2027	Prom Blwyddyn 11	Year 11 Prom
05/07/2027	Athletau Cymysg Bl 3-6	Year 3-6 Mixed Athletics
08+09/07/2027	Eisteddfod Oed Uwchradd	Secondary School Eisteddfod
16/07/2027	DIWEDD Y FLWYDDYN ACADEMAIDD	END OF ACADEMIC YEAR

Noder bod y dyddiadau uchod yn agored i newid. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn cysylltu gyda chi i nodi'r newid mewn dyddiad.



Cliciwch [YMA](#) er mwyn darganfod dyddiadau'r tymor ar gyfer eleni (linc allanol)

BROMCOM - MCAS

Bromcom yw'r lle i fynd er mwyn gweld amserlen, gwaith cartref ac adroddiadau eich plentyn. Dyma hefyd lle byddwch yn cofrestru ar gyfer nosweithiau rhieni a lle gallwch adrodd absenoldeb eich plentyn.

Er mwyn cael mynediad i'r ap / wefan, dilynwch y canllawiau isod os gwelwch yn dda.

- Ewch i'r wefan <https://www.mychildatschool.com/MCAS/MCSParentLogin>
- Gwasgwch y linc “Ymuno / Sign Up”
- Rhwch cod post yr ysgol **SA44 4JL** NEU cod yr ysgol **16054** i mewn.
- Rhwch eich cyfeiriad e-bost i mewn. Mae angen i hwn i fod yr un cyfeiriad e-bost sydd wedi ei gofrestru gyda ni yn yr ysgol.
- Bydd hyn yn danfon cod unigryw i'r cyfeiriad e-bost a fydd yn caniatáu i chi osod cyfrinair.
- Wedi i chi wneud hyn, bydd modd i chi ddefnyddio'r manylion i mewngofnodi i'r ap ar eich dyfais.
- **NODER:** Nid cyfrif disgybl yw hwn. Mae'n bwysig nad yw disgyblion yn cael mynediad i'r ap i rieni.
- Mae modd i rieni / gofalmwr i osod cyfrifon ar wahan cyn belled a'u bod nhw wedi nodi ar ein system fod ganddynt gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.
- Os cewch chi unrhyw anhawster gyda'r broses uchod, cysylltwch gyda'r swyddfa.




Cliciwch y logos isod er mwyn llwytho'r ap 'My Child at School' i'ch ffon symudol



PRESENOLDEB

Un o flaenoriaethau'r ysgol eleni yw sicrhau lefelau presenoldeb uwch ymysg ein disgyblion. Yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf collodd disgyblion Bro Teifi un allan o bob 10 diwrnod yn yr ysgol ar gyfartaledd gan effeithio ar eu cynnydd yn yr ysgol.



Carwn eich hatgoffa na ddylai disgyblion fod yn cymryd gwyliau adeg tymor a dylid gwneud pob ymdrech i wneud apwyntiadau meddygol ar ôl oriau ysgol ble bynnag mae'n bosib. Rhaid gwneud pob cais am wyliau drwy'r dudalen hon ar wefan yr ysgol

<https://www.ysgolbroteifi.cymru/info/v/135-gwyliau-adeg-tymor-gwybodaeth-i-rieni/>

Yn yr achosion hynny lle mae eich plentyn yn sâl a methu mynychu'r ysgol, mae rhaid cysylltu gyda'r ysgol i egluro'r absenoldeb. Gallwch wneud hynny drwy adrodd ar ap Bromcom (MCAS neu My Child at School) neu drwy ffonio'r ysgol ar **01559 362503** a dewis **opsiwn 1**. Os yw eich plentyn yn dioddef o chwydu neu dolur-rydd yna rhaid eu cadw adref am 48 awr os gwelwch yn dda.

Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng presenoldeb a llwyddiant yn yr ysgol.

Gweler isod ddata sirol sy'n dangos y berthynas rhwng lefelau presenoldeb a llwyddiant mewn arholiadau TGAU



% PRESENOLDEB	CANRAN CAFODD 5 GRADD A*-C yn TGAU
95% neu'n uwch	72%
90%-94.9%	57%
80%-89.9%	30%
Llai na 80%	6%

DISGWYLIADAU MEWN GWERSI

YN YSGOL BRO TEIFI



BYDDWCH AR AMSER

Ymatebwch i'r gloch ac ewch i'r wers yn brydlon. Does dim esgusodion!



TYNNWCH EICH COTIAU

Dim gwisgo cotiau yn y dosbarth a dim gwisg answyddogol e.e. "hoodies".



DIM FFONAU SYMUDOL

Rheol yr ysgol - dim ffonau i'w gweld o gwbl.



BYDDWCH YN BAROD I DDYSGU

Wynebwch flaen y dosbarth yn dawel. Dewch â'r offer cywir i'r wers.



UN YN SIARAD, PAWB YN GWRANDO

Pan mae'r athro'n siarad - pawb i wrando. Parchwch eich cyd-ddisgyblion drwy wrando ar eu cyfraniadau.



DIM GWM CNOI

Dim gwm cnoi yn Ysgol Bro Teifi.



DEFNYDDIWCH EIRIAU CAREDIG

Os nad oes gennych rywbeth neis i'w ddweud, cadwch y geiriau i chi eich hunain. Dim rhegi o gwbl!



GWNEWCH EICH GORAU

Gweithiwch yn galed a gnewch eich gorau i ddatrys unrhyw broblem.



HOLWCH GWESTIYNAU

Os yn ansicr, ar ôl i chi drio'ch gorau, holwch yr athro am gymorth.

BYDDWCH YN DDYSGWYR EFFEITHIOL

EIN GWERTHOEDD CRAIDD



PARCH



UCHELGAIS



CAREDIGRWYDD



CYMREICTOD



TEGWCH



GWYDNWCH



Gwahoddiad i holl
ddisgyblion Blwyddyn 5
a 6 yr ardal a'u
teuluoedd i



An invitation to all
Year 5 and 6 pupils
and their families
to



Noson Agored YSGOL BRO TEIFI Open Evening



05.10.2026
16:30 - 18:30



**Croeso a Chyflwyniad
gan y Pennaeth yn y
Neuadd am
16:30 a 17:30**

**Presentation and
Welcome from the
Headteacher in the Main
Hall at 16:30 and 17:30**

Dewch i gwrdd â'r staff,
gweld ein cyfleusterau a
chymryd rhan yn y
gweithgareddau

Come and meet the staff,
see our facilities and take
part in the activities



www.ysgolbroteifi.cymru

Bydd Lluniaeth ar gael yn y ffreutur
Refreshments will be available in the canteen

CROESO I STAFF NEWYDD

Estynnwn groeso i'r aelodau staff newydd sydd yn ymuno gyda ni eleni.
Dymunwn y gorau iddynt yn eu rolau newydd!

Miss Eleri Roberts - Athrawes y Gymraeg - Cyfnod Mamolaeth

Mrs Rachel Keeble - Athrawes Cemeg ôl-16

Miss Summer King- Cynorthwy-ydd Dosbarth

Mr Simon Ensoll - Gofalwr

Croeso i #TIMBROTEIFI

Chwilio am her newydd? Eisiau gweithio mewn ysgol gyfeillgar a chymreig ei naws? Dilynwch y linc isod i edrych ar ein swyddi gwag:



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

[Pori Swyddi | Ceredigion County Council Careers](#)

APWYNTIAD GYDA'R PENNAETH

Mae modd i chi wneud apwyntiad gyda'r Pennaeth er mwyn trafod unrhyw agwedd o fywyd ysgol eich plentyn nad ydych wedi gallu mynd i'r afael â hi, drwy'r ffynonellau arferol. Bydd yr apwyntiad am uchafswm o 10 munud a bydd y Pennaeth yn casglu gwybodaeth am yr hyn sy'n eich poeni a threfnu amser pellach os oes angen. Gweler isod fanylion pellach:

Amserau apwyntiadau

Bore Mawrth rhwng 8.30 a 9.00 (3 slot 10 munud)

Prynhawn Iau rhwng 15:30 a 16:00 (3 slot 10 munud)

I wneud apwyntiad, ewch i

<https://www.ysgolbroteifi.cymru/info/v/93-gwnewch-apwyntiad-i-siarad-gyda-r-pennaeth/>



☎ 01559 362503

✉ swyddfa@broteifi.ceredigion.sch.uk

🌐 www.ysgolbroteifi.cymru